

Y Labordy Pryfed

*Stori'r Chwilen Olew*

Gan Sarah Hancock

Ym mherfedd y glaswelltiroedd  
Lle mae'r clychau'r gog a glas yr yd yn tyfu  
Mae labordy cyfrinachol iawn  
Sy'n hysbys i ddim ond rhaid creaduriaid hy.

Mae'r labordy'n fach o ran maint  
Y waliau wedi'u gwneud o bridd  
A'r unig greadur sy'n cael mynd i mewn  
Yw'r chwilen sy'n gwneud olew.

Mae gweithio yn y labordy yn fusnes o bwys  
Mae pob chwilen yn cymryd o ddifri ei rôl  
Mae rhai'n gyfrifol am ystwytho tocsinau  
Tra bod eraill yn mynd allan ar batrôl.

Mae rhai'n cael tasgau dirgel  
Ac eraill eu hanfon i sbïo  
Mae rhai'n hyfforddi cryfder y larfâu bach  
I ddringo coesyn blodyn neu geisio.

Mae'r holl chwilod hyn yn y labordy  
Yn gweithio gydag un nod rhyngddyn nhw  
Cadw'r rhywogaeth yn ddiogel ac yn tyfu  
Ac amddiffyn chwilod olew eraill fel nhw.

Dyma sŵn y larwm ar draws y labordy  
Mae'n bryd i'r diwrnod ddechrau  
Mae'r gwyddonwyr-chwilod yn codi eu cotiau gwyn  
Ac yn sgrialu i'r biniau tocsinau.

Yma maen nhw'n ystwytho ac yn byrlymu  
I wneud yn siŵr bod y sylwedd yn gryf  
Gan arllwys y cemegau'n ofalus  
A sgriblo nodiadau di-rif

Bydd yr olew gwerthfawr hwn o ddefnydd yn fuan  
Fel uwch-bŵer i amddiffyn pob chwilen  
A'i chadw'n ddiogel rhag ysglyfaethwyr  
A'r perygl o fynd yn fwyd iddynt.

Wrth adael y labordy ar unrhyw adeg  
Bydd y chwilod yn diferu smotiau  
O olew ar eu teimlyddion pigfain,  
Eu coesau, eu cymalau a'u gyddfau.

Nawr wedi'i ddiogelu gan olew arbennig  
Mae'r pryfed hyn yn barod i hedfan  
Os bydd rhywbeth yn herio un o'r chwilod 'ma  
Byddan nhw'n barod i'w ymladd.

Yn gwisgo siacedi llachar  
Mae'r rhai â rôl bwysig  
Bob dydd yn mentro o'r labordy  
Ac yn mynd ar batrôl blodau gwyllt.

Gan orymdeithio mewn modd trefnus  
Rhaid i'r chwilod hyn gerdded trwy'r glaswellt  
Yn cyfri'r blodau ar eu ffordd  
Gan lynu at ei gilydd a symud mor gyflym â mellit.

Ar ôl dychwelyd i'r labordy  
Maen nhw'n dangos y cyfrif  
Rhaid i nifer y blodau fod yn uchel bob amser  
I'r chwilod allu aros yn eu llety.

Tra byddan nhw ar batrôl, mae'r chwilod yn nodi  
Pryfed eraill sy'n dal eu sylw  
Ond yn benodol, yn cadw llygad  
Am y wenylen streipiog ddu a melyn ofnadwy.

Ar draws y labordy, mae chwiban yn chwythu  
Mae'r hyfforddiant dwys y chwilod wedi dechrau  
Mae'r larfâu bach yn gwingo ac yn sleifio  
Wrth baratoi am ychydig o hwyl dda

Mae pwysau'n cael eu cyrllo, eu codi a'u dal  
Ymarferion cefn-wrth-gefn di-ri  
Cyfri a gweiddi i godi'n drymach  
Dim amser am unrhyw ddiogi.

Er ei fod yn ifanc ac yn fach iawn  
Rhaid i gyrff y larfâu hyn fod cystal ag y bo modd  
Gan wneud eu cyhyrau mor gryf â phosib  
Ar gyfer cenhadaeth heriol sydd ar ddod.

Pan fydd yr amser yn iawn, bydd y chwilod bach hyn  
Yn troi eu hunain yn ysbïwyr dewr  
Gan ddringo'n llechwraidd ar gefn gwenynen  
A hedfan ar eu pennau eu hunain drwy'r awyr.

Rhaid i'r ysbïwyr bach hyn aros yn llonydd  
Yn ddisymud, yn dawel ac yn ddigyffro iawn.  
Oherwydd os bydd y gwenyn yn darganfod eu presenoldeb  
Bydd yn achosi panig mawr.

Y genhadaeth yw i lawer o ysbïwyr  
Fynd i mewn i nythod gwenyn yn ddirgel  
Ar ôl cyrraedd y lleoliad cywir  
Nhw sy'n gyfrifol am wneud y gwaith sydd ar ôl.

Rhaid i bob ysbïwr bach geisio dwyn  
Rhywfaint o baill neu neithdar o leia'  
Yna, gan aros yn gudd, rhaid defnyddio eu canfyddiadau  
I fesur a bwyta a gwledda.

Am fisoedd maen nhw'n aros yno  
Gan gadw golwg ar storfeydd y neithdar melys  
Yna pan fyddan nhw'n fwy ac yn gryfach byth  
Torri trwy ddrysau'r nyth gwenyn fydd eu nod mentrus.

Ar ôl dodwy eu larfâu eu hunain i fod yn ysbiwyr y dyfodol  
Byddan nhw'n dychwelyd i'r labordy  
Gyda'r rhai ifanc wedi'u cofrestru mewn hyfforddiant dwys y chwilod  
Ac yn datgelu popeth maen nhw wedi'i ddysgu.

Mae'r labordy yn fyw o chwilod olew  
Mae pob un yn chwarae ei rôl ei hun  
Yn byrlymu tocsinau, yn magu cryfder  
Yn mynd ar batrolau blodau gwyllt yn ddiflin.

Mae'r holl chwilod hyn yn y labordy  
Yn gweithio gydag un nod rhyngddyn nhw  
Cadw'r rhywogaeth yn ddiogel ac yn tyfu  
Ac amddiffyn chwilod olew eraill fel nhw.

Ym mherfedd y glaswelltiroedd  
Lle mae'r clychau'r gog a glas yr yd yn tyfu  
Mae labordy cyfrinachol iawn  
Sy'n hysbys i ddim ond rhaid creaduriaid hy.